

**RHESTR WIRIO / FFURFLEN MANYLION – DOGFENNAU ERAILL  
OTHER DOCUMENTS INFORMATION SHEET / CHECKLIST**

Teitl y Ddogfen:	Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl - 2023-2024	
Y math o ddogfen:☒	Datganiad	
Perchennog y ddogfen:	David Christmas	
Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:	Sharon Bowker	
Pwrpas:	Gweler y datganiad	
Cylch Adolygu:	2 flynedd	
Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog):	☒I'w weithredu gan:	Dyddiad:
<ul style="list-style-type: none"> <li>Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau</li> </ul>		04/12/2023
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfieithu'r ddogfen a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp</li> </ul>		22/01/2024

## 📄 Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl - 2023-2024

Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, cred Grŵp Llandrillo Menai ei bod yn hanfodol gwneud hynny heb achosi niwed i eraill ac mae wedi ymroi'n llwyr i ymddwyn yn foesebol a thryloyw yn ei holl waith ac ym mhob perthynas fusnes.

Wrth wneud hynny, mae Grŵp Llandrillo Menai'n cefnogi dull Llywodraeth y DU o weithredu Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol drwy hysbysu staff, myfyrwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid am ei bolisi mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a rhwymedig, ac am achosion o dorri ar hawliau gweithwyr yn ei gadwyni cyflenwi.

Caiff y datganiad hwn ei wneud yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Modern 2015 ac mae'n ffurfio datganiad y Grŵp ar gaethwasiaeth a masnachu dynol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben yn 2023.

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n cymryd camau i sicrhau tryloywder yn ei gadwyni cyflenwi ac yn cefnogi'r angen i osgoi llafur plant, parchu hawliau dynol ac osgoi ecsploetiaeth drwy ymroi i ddulliau caffael cynaliadwy a chyfrifol.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi adnabod y categorïau canlynol fel rhai risg uchel: Dillad; Bwyd; ac offer TGCh. Felly, bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd hyn. 📄

Mae Grŵp Llandrillo Menai o'r farn ei fod wedi cael sicrwydd bod ei gyflenwyr mwyaf yn y meysydd hyn yn gweithredu'n briodol ac yn unol â'r cod ymarfer ar lafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n ei gwneud yn ofynnol:

- Bod cyflogaeth yn ddewis rhydd
- Bod yr hawl i gymdeithasu a'r hawl i gydfargeinio'n cael eu parchu
- Bod amgylchiadau gwaith yn ddiogel a glanwaith
- Nad yw llafur plant i gael ei ddefnyddio
- Bod cyflog byw i gael ei dalu
- Nad yw oriau gwaith yn ormodol
- Nad oes gwahaniaethu'n digwydd
- Bod cyflogaeth reolaidd yn cael ei chynnig
- Nad yw triniaeth greulon neu annynol yn cael ei chaniatáu

Yn y dyfodol, bydd Grŵp Llandrillo Menai am ymrwymo i:

- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'i gadwyni cyflenwi ac yn gweithio tuag at gael rhagor o dryloywder a chynyddu ei gyfrifoldeb tuag at y bobl sy'n gweithio ynddynt. 📄 📄 📄
- Monitro meysydd sy'n cael eu hystyried yn risg, ac adolygu cyflenwyr, sefydliadau fframwaith a masnachfreintiau i fonitro'r cadwyni cyflenwi hynny'n agos.
- Lleihau'r risg o gaethwasiaeth a masnachu dynol yn ei gadwyni cyflenwi a chymryd camau priodol os oes angen.
- Sicrhau bod ei staff perthnasol i gyd yn cael cynnig hyfforddiant priodol.
- Annog staff, cwsmeriaid a phartneriaid busnes eraill i ddefnyddio Polisi Chwythu Chwiban y Grŵp i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â gweithgareddau uniongyrchol neu gadwyni cyflenwi'r sefydliad. 📄 📄 Mae'r weithdrefn chwythu chwiban wedi'i llunio er mwyn ei gwneud yn hawdd i staff allu datgelu gwybodaeth heb ofni y byddant yn cael eu cosbi. Gall aelodau staff, cwsmeriaid neu eraill sydd â phryderon gysylltu â Chyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth y Grŵp.

Mae ymrwymiad y Grŵp i asesu risg a dulliau caffael moesegol sy'n cynnwys egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 mewn unrhyw weithgareddau caffael yn profi'n weithredol ei fod yn lliniaru'r risgiau a nodir uchod.

Hyd yma, nid yw'r Grŵp wedi cael gwybod am unrhyw achosion o fasnachu dynol neu gaethwasiaeth yn ei gadwyni cyflenwi ond pe bai rhai yn dod i'w sylw byddai'n gweithredu ar unwaith yn unol â'i ddyletswyddau cyfreithiol a moesol.

Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu holl waith y Grŵp gyda phartneriaid, gan gynnwys masnachfreintiau.

Mae gofyn i staff Grŵp Llandrillo Menai gwblhau, a phasio, modiwl dysgu ar-lein iHASCO ar Gaethwasiaeth Fodern. Mae'r cwrs hwn yn codi ymwybyddiaeth am y mathau o gaethwasiaeth fodern, y prif arwyddion i gadw'ch llygaid ar agor amdanynt, a sut i'w atal, ei daclo ac adrodd amdano.

Anogir staff y Grŵp i edrych ar wefan GLAA (Gangmasters and Labour Abuse Authority) llywodraeth y Deyrnas Unedig am ragor o wybodaeth: [www.gla.gov.uk](http://www.gla.gov.uk)

## Cyd-destun

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym Mawrth 2017, gyda'r disgwyliad y byddai pob corff sector cyhoeddus yng Nghymru yn cytuno i ymroi i'r cod.

Wrth ymrwymo, cydnabyddir na fydd unrhyw sefydliad mewn sefyllfa i fod wedi bodloni holl ymrwymadau'r Cod yn llawn.

Yn hytrach, mae ymrwymo'n cynrychioli addewid i gychwyn y daith i fodloni gofynion ymrwymadau'r Cod.

Mae'r tabl isod yn amlinellu safbwynt Grŵp Llandrillo Menai parthed gofynion ymrwymadau'r Cod.

Rhif yr Eitem.	Disgrifiad	Manylion
1.0	Cynhyrchu datganiad ysgrifenedig ar gyflogaeth foesebol	Caiff y ddogfen hon ei hadolygu a'i diwygio'n flynyddol.
1.1	Penodi Pencampwr Atal Caethwasiaeth ac Annog Cyflogaeth Foesebol	Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Sharon Bowker
2.0	Cynhyrchu datganiad ysgrifenedig ar chwythu'r chwiban.	📄 Polisi Chwythu'r Chwiban yn ei le ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn.
2.1	Sefydlu trefn i bobl y tu allan i'r sefydliad allu codi amheuan am ymarferion cyflogaeth anghyfreithiol ac anfoesebol.  📄 📄	Mae Swyddog Llywodraethu'r Grŵp yn goruchwyllo'r Gweithdrefnau Cwyno. Anogir partion allanol a mewnol i gyfeirio unrhyw amheuan neu bryderon drwy'r gweithdrefnau hyn.
3.0	Sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â phrynu/caffael a recriwtio a lleoli gweithwyr, yn cael hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesebol, a chadw cofnod o'r rhai sydd wedi'u hyfforddi.	Mae gan Staff Caffael a Chyllid fynediad i, ac maent yn cwblhau, cwrs e-Hyfforddiant ar-lein trwy HEPA sy'n cwmpasu llawer o bynciau gan gynnwys 'Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' a 'Caethwasiaeth Fodern'. Anogir staff Caffael a gweddill staff y Grŵp i edrych ar wefan GLAA (Gangmasters and Labour Abuse Authority) llywodraeth y DU i gael rhagor o wybodaeth. <a href="http://www.gla.gov.uk/who-we-are/modern-slavery/">http://www.gla.gov.uk/who-we-are/modern-slavery/</a> Cofnodir holl hyfforddiant staff ar system fewnrwyd STEPS.
4.0	Sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael. Gan gynnwys:	
4.1	Dylid cynnwys copi o Ddatganiad y Grŵp ar gyflogaeth foesebol (Ymrwymiad 1) ym mhob dogfennaeth caffael. 📄 📄	Caiff y Datganiad hwn ei gynnwys ym mhob tendr sy'n werth mwy na Throthwy Caffael Llywodraethau (GPA) (OJEU) Sefydliad Masnach y Byd.
4.2	Dylid cynnwys cwestiynau priodol ar gyflogaeth foesebol mewn tendrau ac asesu'r ymatebion a roddwyd.	Mae hwn yn ei le ar hyn o bryd a lle bo'n briodol yn cael ei asesu fel Llwyddo/Methu.
4.3	Ymgorffori, lle bo'n briodol, elfennau o'r Cod fel amodau contract.	Ymgorfforir hyn lle bo'n briodol.

4.4	Gofyn i'r sawl sy'n tendro esbonio'r effaith y gallai costau isel ei chael ar eu gweithwyr bob tro y derbynnyr dyfynbris neu dendr anarferol o isel.	Mae hyn eisoes yn rhan o broses dendr y Grŵp, er na chafwyd unrhyw brofiad o gynigion anarferol o isel hyd yma.  [?] [?]
5.0	Sicrhau nad yw'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithio gyda chyflenwyr yn cyfrannu tuag at ddefnyddio arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol o fewn y gadwyn gyflenwi. Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn: [?]	
5.1	Sicrhau na chaiff unrhyw bwysau costau neu amser ei rhoi ar unrhyw un o'i gyflenwyr os yw hynny'n debygol o achosi i weithwyr gael eu trin mewn ffordd anfoesegol.	Bydd contractau'n cael eu rheoli'n ofalus er mwyn helpu i sicrhau na roddir pwysau diangen.
5.2	Sicrhau'r telir pob cyflenwr yn brydlon - o fewn 30 niwrnod o dderbyn anfoneb ddilys. [?] [?]	Mae hyn yn arfer cyfredol
6.0	Disgwyl i gyflenwyr y Grŵp ymroi i'r Cod Ymarfer hwn i helpu i sicrhau bod arferion cyflogaeth foesegol yn digwydd trwy'r gadwyn gyflenwi. [?] [?]	Mae holl ddogfennaeth caffael y Grŵp yn datgan ei ymrwymiad i'r Cod Ymarfer ac yn annog ei gyflenwyr yn gryf i fabwysiadu ymagwedd debyg.
7.0	Asesu Gwariant y Grŵp i adnabod ac ymateb i faterion caethwasiaeth fodern, torri ar hawliau dynol, ac arferion cyflogaeth anfoesegol. [?] Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn:	
7.1	Cynnal adolygiadau rheolaidd o wariant a chynnal asesiad risg ar y canfyddiadau, i adnabod cynhyrchion a/neu wasanaethau lle mae risg o gaethwasiaeth fodern a/neu arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol yn y DU a thramor.	Yn aros am ragor o fanylion a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a byddent yn cynghori pan fyddent ar gael. [?] [?] [?] Mae holl gyflenwyr GLLM yn cael eu Cymeradwyo cyn gosod archeb.
7.2	Ymchwilio unrhyw gyflenwyr a adnabuwyd fel risg uchel, trwy ymgysylltiad uniongyrchol â gweithwyr ble bynnag y bo modd.	Yn aros am ragor o fanylion a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a chawn ein hysbysu pan fydd y rhain ar gael. Nid yw prynu oddi ar Amazon ac Ebay yn cael ei annog.
7.3	[?]Gweithio gyda'i gyflenwyr i unioni unrhyw faterion sy'n ymwneud ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol. [?] [?]	Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn ceisio cyngor cyfreithiol i ymdrin ag unrhyw faterion os a phryd bynnag y byddant yn codi. Bydd hyn hefyd yn cael ei gyflawni trwy'r broses reoli contractau.
7.4	Monitro arferion cyflogaeth ei gyflenwyr risg-uchel, gwneud hyn yn eitem safonol ar agenda'r holl gyfarfodydd/adolygiadau i reoli contractau.	Yn aros am ragor o fanylion a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a chawn ein hysbysu pan fydd y rhain ar gael.
8.0	Sicrhau nad oes hunangyflogaeth ffug yn digwydd, ac nad yw cynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau yn cael eu defnyddio yn annheg neu fel modd o:	
8.1	● Osgoi, neu hwyluso osgoi, talu trethi a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r cyflogau isafswm perthnasol.	Cynhelir gwiriadau IR35 ar unig fasnachwyr posibl i bennu statws treth.
8.2	Rhoi gweithwyr dan anfantais o ran cyflog a hawliau cyflogaeth, sicrwydd gwaith a chyfleodd gyrfa heb fod angen.	Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu llif gwaith i sicrhau bod hyn yn digwydd a chawn ein hysbysu pan fydd ar gael. Does yr un aelod o staff Grŵp Llandrillo Menai ar gontract dim oriau ar hyn o bryd.

8.3	Osgoi cyfrifoldebau lechyd a Diogelwch.	Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu llif gwaith i sicrhau bod hyn yn digwydd a chawn ein hysbysu pan fydd ar gael. <a href="#">?</a>
9.0	Sicrhau bod gweithwyr yn rhydd i ymuno ag Undeb Llafur neu gytundeb ar y cyd, i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd perthnasol ac i godi pryderon gweithwyr heb ofni y gwahaniaethir yn eu herbyn. <a href="#">?</a> Byddwn:	Mae'r broses hon eisoes ar waith
9.1	Ddim yn defnyddio'r rhestrau gwaharddedig.	
9.2	Yn sicrhau nad yw cyflenwyr y Grŵp yn defnyddio'r rhestrau gwaharddedig. <a href="#">?</a> <a href="#">?</a>	Mae'r broses hon eisoes ar waith
9.3	Ddim yn llunio contract ag unrhyw gyflenwr sydd wedi defnyddio rhestr waharddedig ac sydd wedi methu â chymryd camau i unioni'r sefyllfa.	Mae'r broses hon eisoes ar waith
9.4	Disgwyl i gyflenwyr y Grŵp ganiatáu i weithwyr gael mynediad i Undebau Llafur a chynrychiolwyr.	Mae'r broses hon eisoes ar waith
10	Ystyried talu Cyflog Byw'r Sefydliad Cyflog Byw i bob aelod o staff fel isafswm ac annog ein cyflenwyr i wneud yr un peth. Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn:	
10.1	Ystyried talu Cyflog Byw'r Sefydliad Cyflog Byw i bob un o'i staff yn y Deyrnas Unedig. <a href="#">?</a> <a href="#">?</a>	Ers mis Ebrill 2018, mae holl staff Grŵp Llandrillo Menai yn cael eu talu o leiaf y Cyflog Byw Go lawn. <a href="#">?</a> <a href="#">?</a>
10.2	Ystyried dod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig.	Nid oes camau pellach yn cael eu cymryd ar hyn o bryd.
10.3	<a href="#">?</a> Annog ei gyflenwyr tramor i dalu cyflog teg i'w holl staff, ac i sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig yn cael eu talu o leiaf yr isafswm cyflog. <a href="#">?</a> <a href="#">?</a>	Yn aros am ragor o fanylion a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a chawn ein hysbysu pan fydd y rhain ar gael. <a href="#">?</a>
11.0	Cynhyrchu datganiad ysgrifenedig blynyddol yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, a chynlluniau ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol, i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn digwydd mewn unrhyw ran o'n sefydliad a'i gadwyni cyflenwi. Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn:	
11.1	Sicrhau bod y datganiad yn cael ei gymeradwyo ar lefel uwch reolwyr/bwrdd.	Mae'r cam gweithredu hwn bellach yn drefniant gweithredu safonol.
11.2	Cyhoeddi'r datganiad ar wefan Grŵp Llandrillo Menai. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y Coleg yn darparu copi i unrhyw un o fewn 30 niwrnod o dderbyn cais.	Mae'r Datganiad cyfredol ar gael ar wefan Grŵp Llandrillo Menai.